Gwynfor Evans, 1912–2005
Gwleidydd a heddychwr

Gwynfor Evans oedd un o'r gwleidyddion mwyaf ei arwyddocâd a welwyd yng Nghymru nid yn unig yn yr ugeinfed ganrif ond yn ein hanes fel cenedl. Ganwyd ef yn y Barri ar 1 Medi 1912, yn fab i Dan a Catherine Evans. Bu ei daid, Ben Evans, yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghastell-nedd, Llanelli a'r Barri. Yr oedd ei dad yn ddyn busnes medrus ac yn berchennog siop nwyddau haearn a ddatblygodd yn ddiweddarach i fod yn siop adrannolnid anenwog. Derbyniodd addysg elfennol yn ysgolion cynradd ac uwchradd y Barri. Er bod ei rieni'n siarad Cymraeg, Saesneg oedd iaith yr aelwyd a dechreuodd ddysgu Cymraeg pan oedd yn ddeunaw oed. O'r ysgol fe aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth ym 1931 i astudio'r gyfraith, ac yno bu'n weithgar gyda Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr.

Yn Aberystwyth dyfnhaodd ei ymdeimlad o Gymreictod ac ar ddiwedd ei gwrs ymaelododd â changen y Barri o Blaid Cymru. Y flwyddyn honno (1934) aeth i Goleg Sant Ioan, Rhydychen, i astudio'r gyfraith ymhellach, a bu yno tan 1936. Datblygodd ei syniadaeth wleidyddol ac yr oedd wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn ei ffydd Gristnogol. Ffurfiwyd Cymdeithas Heddychwyr Cymru ym 1938 gyda George Davies yn llywydd, a'r flwyddyn ddilynol dewiswyd Gwynfor yn ysgrifennydd. Ym 1939 daeth yr Ail Ryfel Byd i newid trywydd ei fywyd. Oherwydd ei ddaliadau fel heddychwr gwrthododd ymuno â'r lluoedd arfog a gorfu iddo fynd gerbron tribiwnlys yng Nghaerfyrddin fel gwrthwynebydd cydwybodol.

Roedd ei heddychiaeth ef ac arweinyddion eraill Plaid Cymru yn eithriadol bwysig oherwydd ataliwyd y mudiad cenedlaethol yng Nghymru rhag dilyn llwybrau treisgar fel y ddigwyddodd mewn gwledydd eraill yn yr un cyfnod. Penderfynwyd dilyn ffyrdd gwleidyddol i gael y maen i'r wal. Bu'n hynod o weithgar yn yr ymgais i achub Mynydd Epynt rhag rhaib y Swyddfa Ryfel. Yn hytrach na mynd yn dwrnai agorodd fusnes

garddwriaethol yng Nghaerfyrddin. Priododd â Rhiannon Thomas ar ddydd Gŵyl Ddewi 1941 ac fe gawsant saith o blant. Ym 1945 fe'i hetholwyd yn Llywydd Plaid Cymru a bu yn y swydd honno am 36 o flynyddoedd.

Yn y pumdegau ymgyrchodd o blaid Senedd i Gymru ac roedd yn amlwg yn y frwydr i atal Cyngor Dinas Lerpwl rhag boddi Cwm Celyn. Ac yntau'n ddeugain oed, fe'i hetholwyd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr ym 1953, y llywydd ieuengaf erioed, a thraddododd ei anerchiad llywyddol ym Mhen-y-groes, yn dwyn y teitl 'Cristnogaeth a'r Gymdeithas Gymreig'.

Ymgeisiodd saith gwaith am sedd Caerfyrddin cyn iddo'i hennill dros Blaid Cymru ym 1966 mewn isetholiad yn dilyn marwolaeth y Fonesig Megan Lloyd George. Yr oedd hwnnw'n un o'r digwyddiadau mwyaf syfrdanol yn hanes gwleidyddiaeth Prydain. Ym 1979 pleidleisiodd Cymru yn erbyn datganoli a bu hyn yn ergyd drom iddo. Y flwyddyn ddilynol dywedodd y llywodraeth Dorïaidd na fyddent yn darparu sianel deledu Gymraeg, gan dorri addewid a wnaed ganddynt ynghynt. Penderfynodd Gwynfor y byddai'n ymprydio hyd farwolaeth pe na bai'r llywodraeth yn cadw ei gair, ond cyn iddo ddechrau ymprydio ildiodd y llywodraeth a sefydlwyd S4C ym 1982. Cyhoeddodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Aros Mae* (1971), *Bywyd Cymro* (1982) a *Heddychiaeth Gristnogol yng Nghymru* (1991). Bu farw yn ei gartref, Talar-wen, Pencarreg ar 21 Ebrill 2005, yn 92 mlwydd oed.